# CRONFA CYMORTH LLIFOGYDD I FUSNESAU
# TELERAU AC AMODAU AR GYFER YMGEISWYR

---

1. Telir y grant hwn yn ôl disgresiwn llwyr Cyngor Sir Fynwy ar ran Llywodraeth Cymru.

2. Caiff Llywodraeth Cymru neu'r awdurdod sy'n gweithredu ar ei rhan atal y cyllid, neu ei adennill mewn amgylchiadau penodol.

3. Gwneir taliad drwy drosglwyddiad banc i'ch cyfrif banc enwebedig ar ôl casglu digon o dystiolaeth sy'n profi eich bod yn gymwys i dderbyn y grant.

4. Rhaid i chi sicrhau bod y cyllid a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r cytundebau perthnasol yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig gan gynnwys Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r canllawiau statudol ynddi.

5. Sylwch y gallai gwybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn wybodaeth y gellir o bosib ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad y Cyhoedd at Wybodaeth. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a ddarperir i ni gennych chi, nac yn ei rhyddhau heb ymgynghori â chi ymlaen llaw ond yn y pen draw mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid datgelu, yn un i Lywodraeth Cymru neu'r awdurdod sy'n gweithredu ar ei rhan, i ystyried yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol.

6. Drwy wneud cais am y grant hwn rydych yn cytuno i dderbyn y telerau ac amodau hyn. Dilysir eu derbyn trwy wirio'r blwch telerau ac amodau ar y ffurflen gais a thrwy gyflwyno'r cais.

7. Sylwch na fydd Cyngor Sir Fynwy yn talu'r Cwmni oni fyddwch wedi dychwelyd y dystiolaeth ychwanegol angenrheidiol, fel yr amlinellir yn adran 3.

8. Rhaid defnyddio unrhyw gyllid a ddyfernir, at y dibenion a gymeradwywyd yn y cais yr ydych wedi'i gyflwyno, ac mewn unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.

9. Rhaid hawlio'r cyllid erbyn 31 Ionawr 2026.

10. Bydd y Cwmni yn rhoi'r holl wybodaeth am ei weithgareddau neu ei weithgareddau arfaethedig yn ogystal â'i fwriad i ddefnyddio'r cyllid i gyd neu ran ohono, ac i ba bwrpas, i Gyngor Sir Fynwy, fel y mynnir gan y cyngor o bryd i'w gilydd.

11. Mae Cyngor Sir Fynwy yn mynnu fod pawb sy'n derbyn cyllid yn sicrhau eu bod yn cymhwyso cyfleoedd cyfartal fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr, ac fel darparwyr gwasanaethau, waeth beth yw eu hunaniaeth o ran hil, rhywedd/hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw anableddau.

12. Bydd gan Gyngor Sir Fynwy hawl i amrywio, atal neu derfynu unrhyw ran o'r cyllid neu'r cyllid i gyd a/neu fynnu bod rhan o'r cyllid neu'r cyllid i gyd sydd eisoes wedi ei dalu, yn cael ei ad-dalu:

    i. os bydd y Cwmni yn methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau, amodau neu ddarpariaeth a nodir yn y ddogfen Telerau ac Amodau hon, nodiadau Canllawiau'r cais;

    ii. pe canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y Cwmni neu ar ei ran mewn perthynas â chaffael y cynnig hwn am gyllid neu wrth hawlio cyllid yn anghywir neu'n

gamarweiniol i raddau y mae Llywodraeth Cymru neu'r awdurdod sy'n gweithredu ar ei ran, o'r farn ei fod yn berthnasol;

iii. os yw Cyngor Sir Fynwy yn amau bod y Cwmni a/neu unrhyw rhai o'i swyddogion yn ymwneud â gweithgarwch twyllodrus.

13. Gall Cyngor Sir Fynwy amrywio a/neu atal unrhyw daliadau cyllid neu'r cyllid i gyd a/neu fynnu bod y cyllid, ynghyd â llog, yn cael ei ad-dalu o'r dyddiad talu os:

    i. yw'n ofynnol iddynt wneud hynny o ganlyniad penderfyniad, neu o ganlyniad unrhyw rwymedigaeth dan ddeddfwriaeth y DU; neu

    ii. ei bod yn angenrheidiol, yn eu barn nhw, i sicrhau bod y cyllid a ddarparwyd yn unol â'r llythyr hwn, ynghyd ag unrhyw gyllid arall sydd wedi ei dderbyn, neu'n debygol o gael ei dderbyn tuag at y Prosiect, yn Gymorth Gwladwriaethol cyfreithlon.

14. Os yw'r Cwmni yn cael ei ddirwyn i ben neu'n cael ei ddatod (gan gynnwys bod yn destun gorchymyn gweinyddu), yn mynd i law'r derbynnydd, yn mynd yn fethdalwr, yn ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o'i ddyledion gyda'i gredydwyr neu os bydd unrhyw ddigwyddiad tebyg neu gyfystyr ag unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn y paragraff 14 hwn yn digwydd, bydd gan Gyngor Sir Fynwy yr hawl i adennill ar gais gan y Cwmni, y cyllid a gafodd ei dalu, ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus ne'n daladwy gan y Cyngor i'r Cwmni neu i unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran neu yn ei enw. Bernir bod unrhyw gyfeiriadau at swm y cyllid a dalwyd neu sydd i'w dalu i'r Cwmni yn golygu ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a dalwyd mewn gwirionedd i'r Cwmni gan y cyngor ar yr adeg y bydd unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn digwydd.

15. Bydd y Cwmni, heb godi tâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Gyngor Sir Fynwy, neu eu cynrychiolwyr, ymweld â'r safle ar unrhyw adeg resymol a/neu archwilio unrhyw un o'i weithgareddau a/neu archwilio'r asedau neu'r eitemau a brynwyd ar gost i'r prosiect, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon y Cwmni ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion, a fydd, ym marn swyddogion yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r defnydd a wnaed o'r cyllid gan y Cwmni. Mae'r amod hwn heb ragfarn ac yn destun unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan y cyngor neu unrhyw un sy'n swyddog, gwas neu asiant iddo.

16. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i fynnu bod y personau perthnasol sy'n rheoli dogfennau neu'n eu cadw, yn rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallai fod eu hangen arnynt ac i fynnu bod y personau hynny yn dod ger eu bron at y diben hwnnw. Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar bob adeg resymol.

17. Os, yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod archwiliad cyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, y daw'r Cwmni i wybod fod dirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol ar unwaith.

18. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau yn brydlon. Nid ydynt yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas â cholled y gellir ei phriodoli i unrhyw oedi o ran talu hawliadau neu y gellir eu priodoli i unrhyw achos o atal, lleihau, neu ganslo'r cyllid.

19. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r cyllid a ddarperir at (1) dibenion pleidiau gwleidyddol; (2) i hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol benodol; (3) hapchwarae; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y pennir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd

cyfreithiol mewn perthynas â’r grant hwn; (8) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (9) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddod ag enw drwg i ni.

20. Trwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn ardystio nad oes unrhyw ymgyfreitha na chyflafareddu yn digwydd ar hyn o bryd nac yn yr arfaeth neu hyd y gwyddoch, yn cael ei fygwth, sydd wedi cael effaith andwyol, neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i berfformio a chydymffurfio ag unrhyw rhai o’r Amodau, neu eich gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

21. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych wedi datgelu'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu i ni er mwyn ein galluogi i gael golwg gwir a chywir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol ac arfaethedig) neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried rhoi cyllid i chi.

22. Trwy lofnodi'r cais hwn rydych yn cytuno i gydweithredu'n llawn â Chyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru ac unrhyw ymgynghorwyr y byddwn yn eu penodi i’ch monitro o ran y ffordd yr ydych yn defnyddio’r cyllid ac yn cydymffurfio â’r Amodau.

23. Rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifon cyflawn a chywir sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais yr ydych wedi'i wneud. Heb godi tâl, rhaid i chi ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Gyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, ei chontractwyr enwebedig ar unrhyw adeg resymol a chyda rhybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, fel atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) i ymweld â'ch safle a/neu archwilio unrhyw un o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill sut bynnag y cânt eu storio, a allai, ym marn resymol y swyddog hwnnw, fod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r cyllid grant. Mae'r fath gamau, heb ragfarn ac yn destun unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Gyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw un sy’n swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

24. Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau yn gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd sydd gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, gweithwyr a chontractwyr).

25. Mae'n rhaid i chi ein hindemnio yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau, a threuliau a ddioddefwyd gennym neu a achoswyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ni o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych i gyflawni unrhyw rwymedigaeth sydd gennych i drydydd parti, boed yn llawn neu’n rhannol.